**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C**
**Cyfarfod Rhif 432**
**28 Tachwedd, 2019 - S4C, Caerdydd**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Hugh Hesketh Evans | (Cadeirydd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) – (eitemau 14 a15) |
| Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – (eitem 3) |
| Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – (eitem 18) |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**Gwahoddedigion:**

| | |
|---|---|
| Lewis Knights | (NAO) – (eitem 10) |
| Saagar Patel | (NAO) – (eitem 10) |

**Ymddiheuriadau:** Anita George (Aelod o'r Bwrdd)

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C yng Nghaerdydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

S4C

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 431 a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 431 a gynhaliwyd ar y 24ain o Hydref, 2019.

Cymeradwywyd y cofnodion.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 431**

**Cynllun Adnoddau Dynol** - Holwyd ynglŷn â diweddariad o ran cynllun adnoddau dynol, a chytunwyd y byddai cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr.

**[Crynodeb: E-byst Clic** – Cafwyd diweddariad am e-byst Clic. Mae'r broses o yrru e-byst ar sail diddordeb y defnyddiwr wedi dechrau. Roedd y gwaith i greu proses hollol awtomatig yn parhau.]

**Ofcom** - Nododd OE ac EM eu bod wedi cwrdd  â Bwrdd Ofcom yn ddiweddar mewn derbyniad yng Nghaerdydd.  Roedd yn ddigwyddiad gwerthfawr a chynhaliwyd trafodaeth ddefnyddiol gyda nifer o aelodau Bwrdd Ofcom.  Yn ogystal, roedd S4C a'r PSBs eraill wedi cwrdd gydag Ofcom a DCMS i drafod cynhwysiad ac amlygrwydd y tu hwnt i deledu llinol gan gynnwys platfformau ffrydio newydd.  Trafodwyd pwysigrwydd mynediad i ddata hefyd.

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth a nodwyd rhai newidiadau.]

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad gan gynnwys y materion canlynol.

**Pwyllgor Archwilio'r BBC**

[**Crynodeb**: Roedd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd wedi cwrdd â Shirley Garrood, sef Cadeirydd newydd Pwyllgor Archwilio'r BBC.]

**Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio gyda'r BBC i drafod cydleoli**

Ar 5 Tachwedd daeth cynrychiolwyr o'r BBC i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn rhoi diweddariad ar Sgwâr Canolog a'r prosiect cydleoli.

**[Crynodeb**: Yn sgil y drafodaeth, ysgrifennodd y Cadeirydd at y BBC ar 8 Tachwedd i grynhoi'r sgwrs a'r prif bwyntiau gweithredu.]

**Diweddariad ar benodiad y Cadeirydd Newydd**

Yn sgil galw'r etholiad cyffredinol, ni chafwyd cadarnhad na gwrandawiad cyn-benodi.  Roedd hi'n debygol byddai angen aros felly tan y flwyddyn newydd o ran penodiad Cadeirydd newydd. Yn y cyfamser, roedd swyddogion DCMS wedi nodi bod ganddynt gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol i ymestyn cyfnod HHE fel Cadeirydd dros dro hyd at ddiwedd mis Mawrth 2020.

**[Crynodeb:** Roedd yr Ysgrifennydd wedi trafod yn barod gyda swyddogion DCMS yr angen i hysbysebu am fwy o aelodau anweithredol i'r Bwrdd.]

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, gan gynnwys y materion isod.

**Etholiad Cyffredinol**

**[Crynodeb:** Nododd OE fod maniffesto pob plaid wedi'i chyhoeddi bellach a bod yna geiriau cadarnhaol ynddynt o ran S4C a darlledu trwy'r iaith Gymraeg.]

Roedd e hefyd yn bwysig nodi bod rheolau clir mewn lle gan S4C yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a bod nodyn wedi mynd i atgoffa staff a'r sector cynhyrchu. Gofynnodd RhW os oedd canllawiau mewn lle ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae Canllawiau Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol mewn lle a danfonir copi at yr Aelodau.

Mewn perthynas ag adroddiad monitro wythnosol Newsdirect, nodwyd fod y tîm rheoli a'r Cadeirydd yn derbyn yr e-bost wythnosol a chytunwyd i ychwanegu'r Aelodau eraill at y rhestr dosbarthu.

**Y Cynulliad**

Nodwyd bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddatganoli darlledu. Roedd y Pwyllgor eisiau ystyried nifer o faterion gan gynnwys llywodraethu ac ariannu S4C. Roedd OE wedi cael cais i roi tystiolaeth ac roedd hi'n debyg byddai hyn ar 22 Ionawr 2020 ar banel gyda'r BBC ac ITV Cymru. Roedd y Pwyllgor hefyd am glywed am waith Ofcom ar ddyfodol teledu cyhoeddus 'Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr.'

**Young Adult Contestable Fund**

Ar ddechrau Tachwedd, cyhoeddwyd fod S4C wedi llwyddo i fod ymhlith y darlledwyr cyntaf i dderbyn nawdd o'r Young Audiences Content Fund. Roedd cynnwys S4C am dderbyn dros £500,000 ar gyfer datblygu cynnwys i blant a phobl ifanc. Cytunodd y Bwrdd fod hwn yn newyddion positif iawn gan ddiolch i bawb oedd wedi gweithio ar y ceisiadau.

7. **Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019**

Cyflwynodd RhW gofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys. Nodwyd fod swyddogion wrthi'n ystyried rhaglen waith yn sgil drafodaeth Pwyllgor mis Hydref.

8. **Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019**

Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

9. **Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM gofnodion o gyfarfod y Bwrdd Masnachol.]

Gofynnwyd i'r Bwrdd benodi SW yn gyfarwyddwr y cwmnïau masnachol yng ngrŵp S4C. Cefnogir hyn gan y Bwrdd Masnachol a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

Cymeradwywyd penodi SW i'r Bwrdd Masnachol.

10. **Cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd LK a SP eu hunain, a rhoddwyd amlinelliad o gynllun gwaith NAO mewn perthynas â gwaith archwilio S4C.]

**Rhaglen Waith yr NAO**

Nodwyd bod tri phwynt sylfaenol i'r cynllun gwaith, ac y byddai angen i S4C gytuno'n ffurfiol.

**[Crynodeb:** Ar dudalen 2 o'r cynllun, amlinellir yr asesiad risg gan nodi fod trafodaethau eisoes wedi digwydd gyda swyddogion S4C. Roedd yr NAO hefyd wedi adolygu gwaith GT.

Roedd yr NAO yn trafod yr amserlen gyda SW, a bydd ymgais i geisio gweithredu'r cynllun gwaith ynghynt yn y flwyddyn ariannol, fel nad oes unrhyw ormodedd o waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymeradwywyd y cynllun a chytunwyd y Bwrdd gyda'r tri phwynt sylfaenol isod a ofynnwyd iddynt ystyried, sef:

- *Whether our assessment of the risk of material misstatement to the financial statements is complete;*
- *Our proposed audit plan to address these risks; and*
- *Whether the financial statements could be materially misstated due to fraud, and communicate any areas of concern to management and the audit team.*]

11. **Setliad Ffi'r Drwydded yn 2022**

Un o argymhellion yr adolygiad annibynnol oedd y dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan y ffi drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau am ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.

**[Crynodeb:** Nodwyd fod swyddogion wedi dechrau ystyried prif ddisgwyliadau S4C fel rhan o unrhyw broses.]

12. **Strategaeth Newyddion S4C**

Fel rhan o'r adolygiad annibynnol yn 2017, soniwyd am ddarpariaeth cynnwys newyddion y BBC ar gyfer S4C.

**[Crynodeb:** Roedd yr adolygiad wedi nodi pryderon am ddiffyg plwraliaeth. Yr her sydd gan bob darlledwr cyhoeddus yw ymateb i anghenion y gynulleidfa, yn enwedig pobl ifanc, a darparu newyddion llinol a digidol ar eu cyfer. Roedd y Bwrdd yn croesawu'r drafodaeth ac yn cytuno â'r cam o ddenu arbenigedd ychwanegol i gynorthwyo.]

13. **Papur ar Raglen Digideiddio'r Archif**

Nodwyd y papur ar raglen digideiddio'r archif.

**[Crynodeb:** Roedd y papur yn cadarnhau'r cynlluniau ar gyfer adfer mewn argyfwng ac yn nodi bod y gwaith o lwytho'r archif i system y BBC ar waith. Trafodwyd dyfodol y tapiau gwreiddiol a chyflwynir papur i'r Bwrdd yn y flwyddyn newydd.]

14. **Papur ar y camau a gymerwyd i adfer perfformiad rhaglenni penodol ym mis Medi/Hydref**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR bapur oedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd i adfer perfformiad rhaglenni penodol ym mis Medi/Hydref.]

15. **Perfformiadau misol – llinol a digidol**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd adroddiadau misol llinol a digidol gan EJ. Nodwyd y ganran uchel o wylio sydd i S4C ar deledu byw o hyd, ynghyd â theledu wedi'i recordio a digidol. Nodwyd bod S4C bellach yn derbyn gwybodaeth am y gwylio ar iPlayer ond nid oes modd i dargedu'r gwylwyr hyn.]

16. **Cyflwyniad ar Gwpan Rygbi'r Byd ar Gyfryngau Cymdeithasol S4C**

Nodwyd y cyflwyniad a gafwyd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn ganmoliaethus ac yn awyddus i ddiolch i'r tîm am yr holl waith oedd wedi arwain at ffigurau nodedig. Roedd yr aelodau hefyd yn hoff o'r ffeithluniau.

17. **Chwaraeon**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ar fater sydd wedi codi ynghylch blaenoriaethu cystadlaethau chwaraeon. Nododd y Bwrdd ei fod yn bwysig mai gwaith dadansoddi sydd yn arwain y penderfyniad. Os nad oes modd darlledu unrhyw gystadleuaeth gellir creu cynnwys o gwmpas y gemau megis rhaglenni dogfen. Gyda'r ymgyrch Iaith ar Daith dros yr haf 2020 awgrymwyd y bydd cyfleoedd i blethu cynnwys o gwmpas ddau ddigwyddiad.]

18. **Adroddiad Ariannol, Chwarter 2, 2019-20**

Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol Chwarter 2, 2019-20 gan SW.

19. **Adroddiad Sicrwydd Ariannol S4C i Fwrdd y BBC, Ch1&2 2019/20**

Cyflwynwyd yr adroddiad sicrwydd ariannol a chymeradwywyd yr Adroddiad gan Fwrdd S4C.

20. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

21. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

22. **Unrhyw Fater Arall**

**Noson Gwylwyr Llanrwst –** 3ydd o Ragfyr

Cafwyd amlinelliad o'r trefniadau ymarferol ar gyfer y noson.